Maddau i'n gilydd

Cysyniadau: **Maddeuant, cadernid.**

Amcan: **Dangos bod maddau i'n gilydd yn rhinwedd.**

Cyfarpar: **Papur A4.**

Cyflwyniad:

● Tybed fedra i ddarllen eich meddyliau? Hynny yw gwybod beth sy'n mynd drwy eich meddyliau y munud yma. Felly, mi ydw i am geisio gwneud hynny y bore 'ma. Yn wir, mi ydw i'n gwybod beth sy'n mynd drwy eich meddyliau rŵan – mi ydych chi'n meddwl na fedra i ddim darllen eich meddyliau! Mae'n amhosibl, meddech chi.

● Wel, dowch i ni roi cynnig arni. Mi ydw i eisiau i chi feddwl am rif. Peidiwch â dweud wrth neb. Cadwch y rhif yn eich cof. Mi ydw i am edrych ar y rhai sy'n eistedd yn y blaen. Wel, yn wir mae nifer o rifau yn ymddangos. Rydw i am eu hysgrifennu ar y darn papur. (Ysgrifennwch y rhif 1089 ar y papur a rhoi'r papur ar ei ben i lawr ar y bwrdd.)

● Ond mi ydw i angen help. Fedr un ohonoch roi rhif i mi rhwng 1 a 3, un arall roi rhif rhwng 4 a 6, un arall rhwng 7 a 9? Ysgrifennwch y rhain ar ddarn o bapur e.e. 2, 5, 9. Yn awr mi ydw i am gyfnewid y rhifau hyn a rhoi'r rhif olaf yn gyntaf a thynnu y rhif lleiaf o'r rhif mwyaf e.e. 952 – 259 = 693. Y tro hwn rwyf am newid y rhifau ac adio y rhif mwyaf 693 a'r lleiaf 396 a'r cyfanswm 1089.

● Gofyn i un o'r plant ddod i ddangos beth oedd y rhif ar y papur ar y bwrdd.

Trafodaeth bellach:

● Ydych chi'n meddwl fy mod i'n gallu darllen eich meddwl? Go brin! Go brin! Ond mae Duw yn gallu deall ein meddyliau a'n teimladau. Mae'n gwybod pan fyddwn yn ofnus a phryderus. Mae'n gwybod pan fyddwn yn hapus ac yn llawen.

● O dro i dro byddwn yn hel meddyliau cas am rywun arall. Efallai fod rhywun wedi gwneud tro gwael â ni. Ac wedyn rydyn ni eisiau talu'n ôl. Sut fyddwch chi'n teimlo pan fydd rhywun wedi gwneud tro gwael â chi?

Stori:

Dyma stori am dad a merch a gafodd eu hanafu pan ffrwydrodd bom yng Ngogledd Iwerddon ar 8 Tachwedd 1987.

O dan y rwbel gorweddai Gordon a'i ferch Marie.

'Dad,' sgrechiodd Marie, 'wyt ti'n iawn?'

Cydiodd ei thad yn ei llaw. 'Ydw, mach i, wyt ti'n iawn?'

Wrth iddi geisio symud o dan y rwbel, dechreuodd weiddi mewn poen. Cydiodd unwaith eto yn llaw ei thad.

'Dad,' meddai, 'dwi'n dy garu di'n annwyl iawn.' Dyna ei geiriau olaf. Daeth y dynion ambiwlans o hyd iddi a'i thad a'u rhuthro i'r ysbyty. Ond pan gyrhaeddwyd yr ysbyty roedd Marie wedi marw. Roedd ei thad, Gordon, yn fyw.

Y diwrnod wedyn daeth un o ohebwyr y teledu i'r ysbyty i holi ei thad.

'Sut ydych chi'n teimlo o golli eich merch Marie?' holodd y gohebydd.

'Yn drist iawn, iawn. Hi oedd cannwyll fy llygad,' meddai Gordon.

'Beth ydi'ch teimladau at y rhai osododd y bom?'

'Dydw i ddim yn meddwl dim drwg tuag atyn nhw, pwy bynnag oedden nhw. Rydw i'n maddau iddyn nhw.'

Roedd y gohebydd wedi ei syfrdanu o glywed geiriau Gordon Wilson. Pan ddarlledwyd yr eitem ar y newyddion y noson honno, roedd llawer iawn o bobl wedi rhyfeddu clywed yr hyn oedd gan Gordon i'w ddweud. Dyma'r dyn oedd wedi maddau i'r rhai oedd wedi lladd ei ferch.

Trafodaeth bellach:

- Sut ddyn oedd Gordon Wilson?

- Fyddech chi'n barod i faddau i rywun sydd wedi gwneud drwg i chi?

- Pa mor anodd ydi maddau?

Emyn: Weithiau mae 'na bethau: Canu Clod 406

Dyfyniad o'r Beibl:

O Arglwydd, rwyt ti'n fy archwilio i, ac yn gwybod popeth amdana i.

Salm 139:1 beibl.net

Munud i feddwl:

Mae'r gwan yn ei chael hi'n anodd i faddau. Un o nodweddion personoliaeth gref ydi maddeuant.

Myfyrdod/Gweddi:

Mae hi'n anodd iawn maddau i bobl sydd wedi gwneud drwg neu dro gwael â ni. O Dduw, wnei di'n helpu i ddysgu maddau fel y gwnaeth Gordon Wilson? Amen.